

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 17eg Mai 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, gan ddechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Harris, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, Miss E. L. Jones, K. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms M. V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C.L. Williams.

Gareth Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus - Dirprwy Glerc y Dref

### **1. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn Gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorydd J. A. Ball (yn sâl).

### **2. ETHOL Y MAER A'I SEFYDLU**

Dywedodd y Cynghorydd Roberts ychydig o eiriau am ei blwyddyn yn y swydd, gan gyfeirio at gyflwyno trigolion y Rhyl a oedd wedi dathlu eu pen-blwydd yn 90 yn yr un flwyddyn â'i Mawrhydi y Frenhines, gydag arian coffa a medalau'r Cyngor Tref fel uchafbwynt penodol. Dywedodd y Cynghorydd Roberts ei bod wedi gweld cymunedau'r Rhyl yn ffynnu yn y cyfnod hwn o adfywio ac roedd wedi ei tharo gan barodrwydd y Rhyl i'w helpu eu hunain ac eraill.

Roedd y Cynghorydd Roberts wedi mwynhau ei chyfnod fel Maer yn fawr a diolchodd i'w chyd-Gynghorwyr, staff, teulu a ffrindiau am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn a dymunodd yn dda iawn i'r Maer newydd ar y flwyddyn o'u blaen.

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Swydd y Maer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2017/2018.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs P. M. Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James y dylid enwebu'r Cynghorydd A. R. James.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd James yn Faer y Rhyl ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2017/18.

Yna arwisgodd y Cynghorydd Roberts y Cynghorydd James gyda Chadwyn y Swydd a gwahoddodd y Maer newydd ei benodi i ddarllen a llofnodi'r datganiad swydd.

Diolchodd y Maer i'w gyngiwr a'i eilydd am eu henwebiadau a'u geiriau caredig a chadarnhaodd mai ei Faeres fyddai ei wraig a'i gyd-Gynghorydd Mrs W. M. Mullen-James a bod y Parchedig Andy Grimwood yn garedig wedi cytuno bod yn Gaplan iddo am y flwyddyn i ddod. Dywedodd y Cynghorydd James mai ei thema ar gyfer y flwyddyn fyddai 'cynhwysiant a chymuned' a thros y 12 mis nesaf byddai'n ceisio codi proffil y Rhyl ymhellach, gan weithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod yr adfer yn parhau a chysylltu gyda chymunedau a phobl y Rhyl i ddiwallu eu hanghenion a'u buddiannau.

Yr elusennau a ddewiswyd gan y Cynghorydd James fyddai Macmillan a Chanolfan Foryd.

Arwsgodd y Cynghorydd James y Faeres newydd gyda bathodyn y swydd a chyflwynodd flodau iddi.

Ar ran y Cyngor Tref diolchodd y Cynghorydd James i'r Maer a'r Gydwedddai a oedd yn ymddeol am eu gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf a chyflwynodd arwyddlun y dref, medal dinesig a blodau i'r Cynghorydd Roberts. Yna cyflwynodd y Cynghorydd James flodau i Mrs Roberts.

### **3. ETHOL DIRPRWY FAER**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer ethol Dirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2017/2018.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs P. M. Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones bod y Cynghorydd P. Prendegast yn cael ei ethol.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Prendegast yn Ddirprwy Faer y Rhyl ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/18.

Arwsgodd y Maer y Cynghorydd Prendegast gyda Chadwyn y Swydd a'i wahodd i lofnodi Datganiad y Swydd.

Wedi hyn, diolchodd y Dirprwy Faer i Aelodau'r Cyngor am eu henwebiadau a dywedodd mai ei Ddirprwy Gydwedddai fyddai Mr Bill Tasker.

Arwsgodd y Maer y Dirprwy Gydwedddai newydd ei benodi gyda Bathodyn y Swydd.

### **4. COFNODION**

Cyflwynwyd Cofnodion Cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 19eg Ebrill 2017 - Rhifau Cofnod 152-164

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 19eg Ebrill 2017 - Rhifau Cofnod 65-67

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

5. **AWDURDODI TALIADAU / YHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu taliadau i'w cymeradwyo a'u llofnodi.

Roedd Clerc y Dref yn falch o ddweud bod Rheolwr Digwyddiadau a Marchnata'r Cyngor, Rachael Wheatley o Gunsmoke Communications, wedi bod yn llwyddiannus yn denu cyllid grant o £4,500 o Gronfa Fawr y Loteri ar gyfer y digwyddiad 'SeaFest' ar 29ain Mai.

**PENDERFYNWYD:**

- i) *Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r taliadau a llofnodwyd y rhain gan y Cynghorwyr James a Prendergast.*
- ii) *Cyflwyno diolch a llongyfarchiadau i Ms Wheatley am sicrhau cyllid grant.*

6. **ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Buttefield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley y dylid penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Rutherford yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

7. **ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. McAlpine y dylid penodi'r Cynghorydd B. Mellor.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Mellor yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

8. **ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendegast ac eiliwyd gan y Cynghorydd T. Thomas y dylid penodi'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Mullen-James yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

## 9. **ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard y dylid penodi'r Cynghorydd Mrs J. McAlpine.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd McAlpine yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

## 10. **DYNODI DYLETSWYDDAU A GYMERADWYWYD**

Gofynnodd y Maer am gael cadarnhau presenoldeb cynrychiolwyr a benodwyd i'r canlynol:

- Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Sir Ddinbych Gynaliadwy
- Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau Sefydlog

a chael eu dynodi fel dyletswyddau a gymeradwywyd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James bod yr uchod yn cael ei gadarnhau.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r dyletswyddau a gymeradwywyd.

## 11. **ATODLEN CYFARFODYDD**

Gofynnodd y Maer i'r Aelodau gadarnhau'r Atodlen o Gyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018 (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. Hughes y dylid cadarnhau'r atodlen.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen.

## 12. **LLOFNODWYR**

Gofynnodd y Maer i'r Aelodau gadarnhau llofnodwyr cyfrifon cyfredol a buddsoddi y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/2018.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard y dylid cadarnhau'r llofnodwyr fel a ganlyn:

Maer a'r Dirprwy Faer, fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol  
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio  
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r Swyddogion canlynol:

Clerc y Dref  
Diprwy Glerc y Dref  
Swyddog Cyllid

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r llofnodwyr.

**13. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes eraill, datganodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: .....

Dyddiad:.....